

Rhif: WG17998



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

Llywodraeth Cymru

## Dogfen Ymgynghori

Ysgolion sy'n achosi pryder:  
canllawiau statudol drafft i  
awdurdodau lleol

Dyddiad cyhoeddi: **4 Mawrth 2013**  
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn **29 Ebrill 2013**

# Ysgolion sy'n achosi pryder: canllawiau statudol drafft i awdurdodau lleol

- Trosolwg** Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn gofyn am farn ar y canllawiau statudol drafft i awdurdodau lleol ynglŷn ag ysgolion sy'n achosi pryder. Mae'r canllawiau statudol yn darparu gwybodaeth i awdurdodau lleol am y gofynion deddfwriaethol newydd ar gyfer ymyrryd mewn ysgolion sy'n achosi pryder y darperir ar eu cyfer gan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. Lluniwyd y canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol wrth iddynt ystyried ymyrryd mewn ysgolion sy'n achosi pryder yn eu hardal. Maent hefyd yn nodi'r camau sydd gan Weinidogion Cymru i'w cymryd wrth arfer eu swyddogaethau ymyrryd a chydysnio eu hunain.
- Sut i ymateb** Dylid e-bostio/postio ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i'r cyfeiriad isod i gyrraedd erbyn **29 Ebrill 2013** fan hwyraf.
- Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.
- Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn [www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau](http://www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau)
- Gellir gweld y Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) yn [www.senedd.cynulliadcymru.org/mglIssueHistoryHome.aspx?lId=3633](http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mglIssueHistoryHome.aspx?lId=3633)
- Manylion cysylltu** I gael rhagor o wybodaeth:  
Y Gangen Effeithiolrwydd Ysgolion  
Is-adran Rheolaeth ac Effeithiolrwydd Ysgolion  
Yr Adran Addysg a Sgiliau  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ
- e-bost: [SMED1@cymru.gsi.gov.uk](mailto:SMED1@cymru.gsi.gov.uk)  
Ffôn: 029 2082 6363  
Ffacs: 029 2080 1044

**Diogelu data** Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhwch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

# Cynnwys

Cyflwyniad

Trosolwg o'r canllawiau statudol

Diben a statws y canllawiau statudol

## Cyflwyniad

Pasiwyd Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 15 Ionawr 2013 a disgwylir iddi dderbyn Cydsyniad Brenhinol tua diwedd mis Chwefror 2013. At ddibenion yr ymgynghoriad hwn, rhagdybiwyd bod Cydsyniad Brenhinol wedi'i roi a bod y Bil bellach yn Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (y Ddeddf).

Mae Pennod 1 y Ddeddf yn ymwneud ag awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru yn ymyrryd mewn ysgolion sy'n achosi pryder. Mae llawer o'r darpariaethau ym Mhennod 1 y Ddeddf yn ailddeddfiadau o ddeddfwriaeth flaenorol, ond mae rhai newidiadau er mwyn sicrhau bod llai o ysgolion yn dod yn destun pryder. Mae adran 20 o'r Ddeddf yn cynnwys pŵer newydd i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau statudol i awdurdodau lleol mewn perthynas ag ymyrryd mewn ysgolion sy'n achosi pryder.

Mae'r canllawiau statudol hyn ar gyfer awdurdodau lleol wrth iddynt ystyried defnyddio'u pwerau i ymyrryd mewn ysgolion sy'n achosi pryder. Nod y darpariaethau yn y Ddeddf a'r canllawiau statudol cysylltiedig yw sicrhau bod awdurdodau lleol yn eglur ynglŷn â'u pwerau ymyrryd eu hunain a phwerau Gweinidogion Cymru a'u bod yn defnyddio'u pwerau'n bendant ac yn effeithiol er mwyn cymell gwelliant cyflym mewn ysgolion sy'n tangyflawni. Mae'r darpariaethau hyn yn ffurfio rhan o raglen weithredu ar y cyd y Gweinidog Addysg a Sgiliau i godi safonau ysgolion yng Nghymru.

Mae'r diwygiadau yn y Ddeddf yn ymateb i bryderon fod rhai ysgolion mewn nifer o awdurdodau lleol wedi cael eu gadael i dangyflawni dros gyfnod hir o amser, yn bennaf am nad yw awdurdodau'n defnyddio ystod lawn eu pwerau i wella ysgolion yn ddigon cyflym. Mae tystiolaeth yn awgrymu mai prin yw'r awdurdodau lleol sydd wedi cyhoeddi hysbysiadau rhybuddio dan amgylchiadau o'r fath. Awgrymodd ymgynghori anffurfiol ag awdurdodau lleol fod y gyfraith fel y mae yn aneglur ac roedd y meini prawf ar gyfer cyhoeddi hysbysiadau rhybuddio yn eu cymell i beidio â'u cyhoeddi'n ddigon buan. Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) yn cydgrynhoi, yn egluro ac yn diwygio'r gyfraith mewn perthynas ag ymyrryd mewn ysgolion sy'n achosi pryder ac yn cynnwys pŵer newydd i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau statudol i awdurdodau lleol yn y cyswllt hwn.

Mae'r canllawiau statudol yn nodi'n eglur y gweithdrefnau y dylai awdurdodau lleol eu dilyn er mwyn sicrhau bod ysgolion sy'n achosi pryder yn gwneud y newidiadau angenrheidiol cyn gynted ag y bo modd.

## Trosolwg o'r canllawiau statudol

Cyhoeddir y canllawiau statudol o dan adran 20 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (y Ddeddf). Rhaid i awdurdodau lleol roi sylw i'r canllawiau wrth ystyried defnyddio'u pwerau ymyrryd er mwyn ymyrryd mewn ysgol sy'n achosi pryder.

Mae'r canllawiau'n rhoi gwybodaeth am y gofynion deddfwriaethol ar gyfer ymyrryd mewn ysgolion sy'n achosi pryder. Dylai pawb sy'n defnyddio'r canllawiau statudol, yn enwedig awdurdodau lleol, fod yn gyfarwydd hefyd ag union eiriad y deddfwriaeth sy'n gysylltiedig â'r canllawiau hyn, yn enwedig Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.

At ddibenion y canllawiau hyn, mae "ysgol sy'n achosi pryder" yn ysgol sydd:

- Yn destun hysbysiad rhybuddio a gyhoeddwyd o dan Ddeddf 2013.
- Yn un nad yw'n destun hysbysiad rhybuddio ond sy'n cyfateb i un neu fwy o seiliau dros ymyrryd un i chwech a bod risg cysylltiedig i iechyd a diogelwch unrhyw berson yn galw am ymyrraeth frys.
- Ym marn Estyn angen gwelliannau sylweddol.
- Ym marn Estyn angen mesurau arbennig.

Mae'r canllawiau statudol yn nodi'r seiliau dros ymyrryd a'r mathau o wybodaeth a allai ddynodi eu bod yn bodoli a'r gofynion sy'n rhaid eu bodloni wrth gyhoeddi hysbysiadau rhybuddio i gyrrff llywodraethu ysgolion.

Maent yn darparu gwybodaeth am bwerau ymyrryd awdurdodau lleol, eu diben, yr amgylchiadau lle gellir gwneud y defnydd gorau ohonynt a'r gofynion ychwanegol sy'n rhaid eu bodloni cyn i awdurdodau lleol ddefnyddio'u pwerau.

Maent hefyd yn nodi'r camau sydd gan Weinidogion Cymru mai'r arfer eu swyddogaethau ymyrryd a chydysnio eu hunain er mai'r disgwyl yw y bydd awdurdod lleol yn ymyrryd yn y lle cyntaf. Ni fydd Gweinidogion Cymru'n ymyrryd oni bai bod awdurdod lleol heb weithredu neu os yw wedi gweithredu'n annigonol.

Bydd y canllawiau statudol yn cymryd lle Cylchlythyr Rhif: 004/2012 Ysgolion sy'n achosi pryder: Canllawiau i ysgolion ac awdurdodau lleol.

## **Diben a statws y canllawiau statudol**

Wedi eu cwblhau'n derfynol, cyflwynir y canllawiau hyn i bob awdurdod lleol yng Nghymru fel Canllawiau Statudol sy'n rhaid i bob awdurdod lleol roi sylw iddynt wrth arfer eu swyddogaethau o dan Bennod 1 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. Gallai gwro oddi wrth y canllawiau hyn arwain at her gyfreithiol mewn llys barn, wrth adolygu unrhyw wro oddi wrth y canllawiau, bydd llys yn craffu ar y rhesymau dros y gwro er mwyn sicrhau bod yr amgylchiadau'n rhai y gellir eu cyfiawnhau'n ddigonol. Mae'n arfer da i sicrhau bod tystiolaeth briodol ar gael i gefnogi rhesymau o'r fath.

Yn ogystal â darparu Canllawiau Statudol i awdurdodau lleol, mae'r canllawiau hyn hefyd yn fodd o roi gwybod i gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a rhanddeiliaid allweddol eraill am y gofynion deddfwriaethol ar gyfer ymyrryd mewn ysgolion sy'n achosi pryder.